**ADRODDIAD DRAFFT YN DILYN YR YMGYNGHORIAD DIWEDDARAF AG AWDURDODAU LLEOL AR YR ARGYMHELLION A GYFLWYNWYD YN " YN ADDAS I'R MILENIWM - AROLWG O'R ROLAU A'R CYFRIFOLDEBAU MEWN TWRISTIAETH YNG NGHYMRU"**

**Cefndir**

Roedd y broses ymgynghori wreiddiol yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraethau Lleol Cymru (WLGA) ochr yn ochr â chynrychiolwyr Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol. Gweithredodd Bwrdd Croeso Cymru fel hwylusydd ar gyfer y rhai fu'n cymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghorol.

- Nodir argymhellion yr adroddiad gwreiddiol yn Atodiad 1.

- Nodir y rhesymau dros ofyn am ymgynghoriad pellach yn llythyr y Bwrdd Croeso dyddiedig 23 Rhagfyr yn Atodiad 2.

- Nodir barn Bwrdd Croeso Cymru, yn dilyn yr ymgynghoriad gwreiddiol, ac yn sgîl yr hyn y gofynnwyd i'r Awdurdodau Lleol am eu barn bellach yn ei chylch yn Atodiad 3.

**Ymateb i'r Ymgynghoriad**

- Cafwyd ymateb gan ddeunaw o awdurdodau lleol. Bydd un yn ymateb cyn hir. Ni chafwyd ymateb eto gan dri ohonynt.

- Ceir cefnogaeth glir i argymhelliad (i)

- Ceir cefnogaeth i argymhelliad (iii) gydag un amod. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol, yn ogystal â chyflwyno rheolaeth cyrchfannau o safon integredig, yn mynnu cadw'r hawl i farchnata eu hardaloedd eu hunain naill ai'n unigol neu mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol cyfagos pe byddent ar unrhyw adeg yn ystyried y byddai hyn o'r budd mwyaf i economi eu diwydiant twristiaeth lleol.

- Ceir cefnogaeth glir i argymhelliad (iv)

- Ceir cefnogaeth glir i argymhelliad (v) cyhyd â bod pob un o'r ddau ar hugain o'r awdurdodau lleol yn cael eu cynrychioli'n iawn.

**Argymhelliad (ii) Rôl y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol**

- Cytunodd pob ymatebydd, ar wahân i ddau, bod rôl i bartneriaeth a oedd yn dod â'r

awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus a gwirfoddol, a masnach ynghyd. Roedd y ddau eithriad o blaid rhyngwyneb uniongyrchol rhwng yr awdurdod lleol a'r corff masnachu'n unig ac y byddai ei gyfansoddiad a'i weithgareddau i'w penderfynu gan y fasnach.

- Mynegwyd pryder gan nifer o awdurdodau lleol ynghylch y gwrthdaro buddiannau posibl a allai godi pan fyddai swyddogion ac aelodau etholedig yr awdurdodau lleol yn dod yn gyfarwyddwyr cwmnïau cyfyngedig drwy warant. Roedd yr ymatebwyr hyn o blaid cael eu cynrychiolwyr yn bartneriaid ac nid yn gyfarwyddwyr Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol.

- Mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch y ffaith nad oedd cyfansoddiad presennol y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol yn cwmpasu ystod digon eang o gyrff. Mewn gwirionedd, nid oes cyfyngiad ar y Cwmnïau o ran ehangu eu haelodaeth i gynnwys ystod mor eang ag y dymunant.

- Mynegwyd pryder gan bob awdurdod yn ardaloedd Amcan 1 ynghylch y ffaith na ddylai'r egni a wastreffir ar drafod strwythurau fod ar draul sicrhau bod arian o gronfeydd Ewropeaidd yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf.

**ARGYMHELLIAD**

- A derbyn mai dau awdurdod lleol yn unig oedd o'r farn nad y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol oedd y cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer sefydlu partneriaeth gyhoeddus/ preifat, ceir digon o gefnogaeth i annog y tri Chwmni Twristiaeth i esblygu yn gyrff partneriaeth ehangach.

- Er y byddai Bwrdd Croeso Cymru yn dymuno cael rhywfaint mwy o'n presenoldeb yn y rhanbarthau, ychydig o bosibiliadau sydd ar gyfer hyn o ystyried ein cyllidebau disymud, y cyfyngiadau ar gostau rhedeg a gofyniad y Cynulliad Cenedlaethol i'r Bwrdd Croeso gryfhau ei rôl strategol. Mae cyfle felly i gryfhau'r cyswllt rhwng y Bwrdd Croeso a'r Cwmnïau Twristiaeth yn yr un modd ag y gwnaeth Byrddau Twristiaeth Cenedlaethol Lloegr, yr Alban ac Iwerddon gyda'u cyrff rhanbarthol y mae pob un ohonynt yn gwmnïau cyfyngedig drwy warant. Mae'r cyrff hyn yn cyflawni swyddogaethau ar lefel ranbarthol a lleol i'r Bwrdd Cenedlaethol. Cytunir ar gontractau lefel gwasanaeth a chyd-drafodir ffioedd. Mae'r Awdurdodau Lleol yn brif gyfranwyr o ran amser ac adnoddau ariannol i'r cyrff rhanbarthol hyn.

- Dylid cymryd camau bellach i weithredu'r argymhelliad gwreiddiol o gomisiynu adroddiad ymgynghorol i ystyried y ffordd orau o ariannu Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol ac i ystyried pa swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan y Bwrdd Croeso a fyddai'n cael eu cyflawni'n well ar lefel ranbarthol. Byddai'r adroddiad hefyd yn ystyried yr angen am dendro cystadleuol er mwyn sicrhau arfer gorau.

**Atodiad 1**

## 6.0 **ARGYMHELLION Y GWEITHGOR I'R GWEINIDOG**

6.1 Mae'r Gweithgor yn gwneud yr argymhellion canlynol i wella strwythur presennol twristiaeth, i'w hystyried gan y Gweinidog.

i) Bod y Bwrdd Croeso Cymru yn parhau fel y prif gorff strategol ar gyfer twristiaeth, a'i fod yn cadw ac yn ehangu ei bolisi craidd a'i rôl strategol. I'w galluogi i gyflawni'r rôl hon, dylai wella rhywfaint ar ei bresenoldeb yn y rhanbarthau.

ii) Bod corff aelodaeth cenedlaethol newydd, sef Twristiaeth Cymru, yn cael ei greu i gynrychioli'r diwydiant Twristiaeth ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol, lleol a sectoraidd. Bydd i hyn oblygiadau o ran y fasnach, y cwsmer a'r defnydd o adnoddau ac felly argymhellir y dylid comisiynu astudiaeth werthuso fanwl annibynnol i archwilio'r cynigion. Dylai'r astudiaeth asesu'r mecanwaith gorau ar gyfer creu corff newydd o ran gwerth am arian ac effeithiolrwydd ac ystyried y goblygiadau hir dymor i'r diwydiant, gan gynnwys sicrhau meddiant gan y diwydiant.

iii) Bod yr awdurdodau lleol yn cael eu hannog i ystyried canolbwyntio eu gweithgareddau o blaid cefnogi twristiaeth ar gyflwyno rheolaeth cyrchfannau o safon integredig, gan ymgorffori gwasanaethau rheoli ymwelwyr, ôl-ofal a gwybodaeth a sicrhau bod y seilwaith a'r cyfleusterau sylfaenol wedi'u sefydlu i fodloni anghenion ymwelwyr. Dylid hefyd eu hannog i barhau i ddatblygu ymhellach ymagwedd y Bartneriaeth Farchnata Ranbarthol/Ardal gan weithio gyda Bwrdd Croeso Cymru a'r corff newydd, sef Twristiaeth Cymru.

iv) Bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i'r awdurdodau lleol i'w galluogi i ymgymryd â'r gwaith o gyflwyno rheolaeth cyrchfannau o safon integredig.

v) Bod croeso i fwriad datganedig y Gweinidog o sefydlu Fforwm Twristiaeth Cenedlaethol i Gymru, fel modd o wella cydlyniant a chyfathrebu rhwng y chwaraewyr allweddol.

**Atodiad 2**

23 Rhagfyr 1999

At holl Brif Weithredwyr y 22 o Awdurdodau Lleol

Annwyl Gydweithiwr/wraig

Ar gais Pwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol ysgrifennaf at bob un o’r 22 o awdurdodau lleol yn gofyn unwaith eto i chi gyflwyno barn eich awdurdodau ar y mater o Rolau a Chyfrifoldebau sydd wedi peri pryder i’r sector cyhoeddus a’r sector preifat am fwy na blwyddyn.

Ysgrifennais atoch ym mis Awst gyda chopi dwyieithog o’r adroddiad llawn "Yn Addas i’r MiIeniwm - Arolwg o’r Rolau a’r Cyfrifoldebau mewn Twristiaeth yng Nghymru". Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn ar gais Mr Hain, y Gweinidog ar y pryd y bu’r Bwrdd Croeso yn gweithredu fel hwylusydd i’r rhai a fu’n cymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghorol.

Roedd llawer o aelodau’r Pwyllgor Datblygu Economaidd o’r farn na chafwyd amser digonol i ymgynghori a bod aelodau a etholwyd gan awdurdodau lleol unigol wedi cysylltu â hwy yn honni nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn y broses ymgynghorol.

Er mwyn arbed arian, nid wyf yn anfon copi llawn arall eto atoch, ond yn hytrach gopi o’r argymhellion.

Yn dilyn yr ymgynghoriad gwreiddiol mae’r argymhellion yn aros yr un fath gyda rhywfaint o eglurhad pellach o ran pwynt (ii) a gwmpesir yn y nodyn atodedig sydd hefyd yn cyflwyno safbwynt dewisol y Bwrdd Croeso.

Buaswn yn ddiolchgar pe byddai modd i mi gael barn eich awdurdod erbyn 18 Chwefror. Os nad yw barn eich awdurdod wedi newid ers eich llythyr diwethaf, yna byddwn yn gwerthfawrogi derbyn nodyn byr i’r perwyl hwnnw.

Yr eiddoch yn gywir

**JONATHAN JONES**

Prif Weithredwr

**Atodiad 3**

**ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. Yn argymhelliad ii) y gweithgor i’r Gweinidog, bellach i’r Cynulliad Cenedlaethol, awgrymwyd creu corff aelodaeth cenedlaethol newydd, sef "Twristiaeth Cymru", i gynrychioli’r diwydiant twristiaeth ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol, lleol a sectoraidd.

2. Y goblygiad oedd y byddai’r 3 Chwmni Twristiaeth Rhanbarthol, cwmnïau cyfyngedig drwy warant, naill ai’n uno, neu fel sefydliadau aelodaeth, yn penderfynu ar eu dyfodol eu hunain.

3. Yn ystod y broses ymgynghorol, daeth yn glir bod aelodau’r fasnach yn fwyaf teyrngar pan gaiff sefydliadau eu rhedeg ar lefel leol ac o ganlyniad nid oedd corff aelodaeth cenedlaethol yn ennyn fawr ddim brwdfrydedd oni bai fod cynrychiolaeth leol gref. Yn ogystal, roeddent o’r farn y byddai creu haen a chorff arall eto yn peri rhagor o ddryswch.

4. Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi gwneud ei safbwynt yn glir. Nid yw’n fwriad ganddo weld y Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol yn cael eu diddymu ond mae yn awyddus i’r cyrff hyn ddatblygu, fel y mae’n rhaid i’r Bwrdd Croeso ei hun ei wneud, er mwyn cyflwyno gwell gwasanaeth i’r diwydiant ac i’r defnyddiwr.

5. Mae’r Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol yn derbyn bod angen newid ac maent eisoes wrthi’n cydweithio ac yn ymchwilio i’r posibilrwydd o gael aelodaeth gyffredin. Byddai gwneud hyn yn cryfhau sefyllfa’r gweithredwyr bach ar Gynghrair Twristiaeth Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar, y corff sy’n lobïo ar ran pob sector yn y fasnach ac y mae’r Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthool yn darparu’r ysgrifenyddiaeth ar ei gyfer.

6. Gofynnodd y Llywodraeth i'r Bwrdd Croeso argymell ffordd ymlaen yn erbyn cefndir yr ymgynghoriad blaenorol ac i rannu'r farn hon â'r awdurdodau lleol.

7. Mae'r Bwrdd Croeso yn rhoi sêl ei fendith yn llawn i argymhelliad i, iii, iv a v y gweithgor Rolau a Chyfrifoldebau.

8. Mae'r Bwrdd Croeso, tra'n parchu hawl yr awdurdodau lleol i weithredu'n annibynnol, yn dymuno gweld y bartneriaeth rhwng yr Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Croeso a'r fasnach yn parhau.

9. Mae'r Bwrdd Croeso yn dymuno gweld y bartneriaeth hon yn cryfhau i'r pwynt lle y gall y corff partneriaeth arwain mwy ar faterion lleol a rhanbarthol yn erbyn cefndir fframwaith strategol cenedlaethol.

10. Mae'r Bwrdd Croeso yn ystyried y dylai'r cyrff partneriaeth rhanbarthol, o ran ffiniau, adlewyrchu'r 4 Fforwm Economaidd Rhanbarthol a 4 Pwyllgor Rhanbarthol y Cynulliad Cenedlaethol.

11. Mae'r Bwrdd Croeso yn argymell ailenwi'r Cwmnïau Twristiaeth Rhanbarthol yn Bartneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol – gan barhau yn gwmnïau cyfyngedig drwy warant ond gyda mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth tra'n parhau i dalu eu costau eu hunain.

12. Bod y Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol yn parhau i ddarparu cynllun aelodaeth sy'n symud tuag at ffioedd a buddiannau Cymru gyfan.

13. Bod y Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol yn hyrwyddo a chefnogi Partneriaethau Marchnata Ardal lle y gallai'r rhain gyfateb i Awdurdod Lleol unigol, grë p o Awdurdodau Lleol neu ranbarth cyfan.

14. Bod astudiaeth werthuso fanwl annibynnol yn cael ei chomisiynu i archwilio'r ffordd orau o ariannu'r Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol ac ystyried pa swyddogaethau y gellid eu cyflawni orau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol gyda'r bwriad o'u gwneud yn fwy effeithiol a chael gwell gwerth am arian.

15. Byddai'r Bwrdd Croeso yn parhau i wahodd cynrychiolwyr o'r Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol i eistedd fel sylwebyddion yng Nghyfarfodydd Bwrdd y Bwrdd Croeso. Byddai Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru hefyd yn cael eu gwahodd i enwebu sylwebydd i fynychu Cyfarfodydd Bwrdd y Bwrdd Croeso. Byddai'r Bwrdd Croeso yn parhau i gynnal 4 Cyfarfod Bwrdd cyhoeddus, un ym mhob un o'r 4 rhanbarth,

bob blwyddyn.